**Atodiad 1**

# Argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf – Cynllun Cyfalaf 2025/26

Mae aelodaeth y Grŵp Craffu Cyfalaf fel a ganlyn:

- Aelod Cabinet – Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (Cadeirydd)
- Aelod Cabinet – Arweinydd y Cyngor ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd
- Aelod Cabinet - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu
- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Corfforaethol – Llywodraethu a Busnes
- Pennaeth Cyllid (A. 151) ac Archwilio
- Landlord y Sir

## Argymhellion

Adolygwyd y dyraniadau bloc ar gyfer 2025/26 gan y Grŵp Craffu Cyfalaf ar 29 Tachwedd 2024. Cyfanswm y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Grŵp Craffu Cyfalaf oedd £7,227k, ynghyd â swm wrth gefn arfaethedig cychwynnol o £500 mil. Y cyllid cyfalaf y tybiwyd ei fod ar gael yn setliad dros dro LlC ar gyfer 2025/26 oedd £6.185 miliwn, gan adael gwahaniaeth o £1.542 miliwn i'w ariannu o dderbyniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn a benthyca darbodus. Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu achos busnes i gefnogi eu ceisiadau. Cyflwynwyd pob cais gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

Ceir manylion am y dyraniadau arfaethedig yn Atodiad 2 ac mae crynodeb ohonynt fel a ganlyn:

- Mae dyraniad o £240,000 yn cael ei argymell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Theleofal. Targedir y cyllid hwn at alluogi'r henoed a phobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Y bwriad yw dyrannu £1.5 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Mae cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel cael gwared ar asbestos, gwaith asesu risg tân, cydraddoldeb ac ati. Argymhellir bod £1.25 miliwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion. Bwriedir hefyd dyrannu £1.0 miliwn i waith cynnal a chadw cyfalaf adeiladau nad ydynt yn ysgolion. Argymhellir ymhellach bod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu union ddyraniadau i'r gwaith penodol sydd eu hangen, yn nhrefn blaenoriaeth.

- Cynigir dyrannu £2.0 filiwn tuag at Gynnal a Chadw Priffyrdd a £337 mil o ddyraniad ar gyfer pontydd a strwythurau a hawliau tramwy cyhoeddus. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn yr argymhelliad hwn mae £400 mil pellach ar gyfer atgyweirio strwythurau pont. Dyma nawfed flwyddyn Project Ôl-Groniad Strwythur Priffyrdd deng mlynedd.

- Argymhellir dyraniad o £250 mil ar gyfer gosod colofnau goleuo newydd yn lle'r rhai nad ydynt yn strwythurol ddiogel. Dyma drydedd flwyddyn rhaglen chwe blynedd.

- Y bwriad yw dyrannu £250,000 o'r rhaglen dreigl pedair blynedd £1 miliwn i ariannu'r gwaith blynyddol o adnewyddu bwrdd gwaith a nifer o brosiectau eraill er mwyn cynnal isadeiledd TGCh y Cyngor. Caiff Blwyddyn 3 i 4 eu hadolygu yn 2025/26.

- Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £500 mil, yn unol â 2024/25.